

Ysgol Gymunedol Gynradd Arberth
Heol Jesse
ARBERTH
Sir Benfro
SA67 7FE



Narberth Community Primary School
Jesse Road
NARBERTH
Pembrokeshire
SA67 7FE

01834 860776

Mrs Kate Moore, BA, PGCE, NPQH
Pennaeth/Headteacher
moorek47@hwbcymru.net

01834 860776

Friday 9th January, 2026.

Annwyl rieni/ofalwyr,

Hoffem gymryd yr amser i ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus wrth sicrhau bod addysg eich plentyn yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth. Hoffem eich atgoffa o bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol.

Mae gan bob disgybl darged presenoldeb o 96%+, a hoffem longyfarch yr holl rieni sy'n sicrhau bod eu plant yn cyrraedd yr ysgol bob dydd ac ar amser. Bellach mae angen i ni gydweithio i ragori ymhellach drwy ragori ar ein targed o 96%.

Ar hyn o bryd, ein presenoldeb yw: 94.5%

Credwn ei bod yn hynod bwysig bod pob un o'n disgyblion yn elwa ar 190 diwrnod o ddysgu er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'r canlyniadau y dylent eu cyflawni. Os gall ysgol wella ei phresenoldeb o 1%, gall hyn arwain at welliant o 5-6% mewn cyrhaeddiad.



Prydlondeb a Phresenoldeb

Rydym yn ysgrifennu at deuluoedd pob plentyn i bwysleisio pwysigrwydd bod yn yr ysgol ar amser. Mae'r gatiay yn agor am 8.45yb, ac mae'r ysgol yn dechrau'n brydlon am 9.00yb bob dydd. Mae plant sy'n cyrraedd yn hwyr dan anfantais sylweddol gan eu bod yn colli dechrau'r diwrnod gyda'u cyfoedion a dechrau'r gwersi. Mae sesiynau ffoneg yn dechrau am 9.05yb.

Mae hefyd yn bwysig iawn bod plant yn sefydlu trefn a arferion da i'w paratoi ar gyfer gweddill eu bywydau. Mae prydlondeb yn sgil bywyd y mae angen iddynt ei ddatblygu tra'u bod yn ifanc. Mae'n hanfodol eich bod yn sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol ar amser er mwyn atal aflonyddwch ar ddysgu eich plentyn ei hun a dysgu eraill.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn gyda'r plant drwy waith dosbarth a gwasanaethau ysgol. Bydd hyn yn cynnwys cymhellion ysgol gyfan; er enghraifft, bydd dosbarthiadau'n cael eu dyfarnu Presenoldeb yr Wythnos yn ystod y Gwasanaeth Dathlu, lle byddant yn cael amser chwarae ychwanegol ar brynghawn Gwener.



Mae'n ofynnol i ni fonitro prydlondeb a phresenoldeb plant. Mae cyrraedd yn hwyr yn barhaus (ar ôl i'r gofrestr dosbarth gael ei chymryd) yn cael ei ddsbarthu fel absenoldeb heb awdurdod. Gall lefelau uchel o absenoldebau heb awdurdod neu brinder prydlondeb arwain at atgyfeiriad at y Gwasanaeth Lles Addysg neu asiantaethau eraill sydd â dyletswydd i ymchwilio ymhellach, a gallai hyn arwain at gamau cyfreithiol yn cael eu cymryd yn eich erbyn. Os ydych yn profi anawsterau gyda phrydlondeb ac yr hoffech drafod hyn gyda ni, gwnewch apwyntiad i wneud hynny. Cofiwch fod Clwb Brecwast ar gael i blant o 8.00yb bob dydd.



Ffeithiau a Ffigurau Presenoldeb

- Dyma rai o'r ffyrdd y gallwch helpu ein hysgol i gyflawni presenoldeb rhagorol:
- Anelwch at i'ch plentyn gael 100% presenoldeb.
- Sicrhewch fod ceisiadau'n cael eu gwneud cyn cadarnhau apwyntiadau ymlaen llaw; hyd yn oed os ydych yn teimlo bod gennych amgylchiadau eithriadol i'ch plentyn fod yn absennol yn ystod y tymor ysgol, efallai na roddir caniatâd a bydd penderfyniad y Pennaeth yn derfynol. Mae ffurflenni ar gael yn swyddfa'r ysgol.
- Rydym yn disgwyl i ddisgyblion gyrraedd yr ysgol ar amser.
- Nid ydym yn disgwyl i ddisgyblion ddod i'r ysgol pan fyddant yn sâl, ond bydd disgwyl i rieni plant sydd ag absenoldebau rheolaidd oherwydd salwch ddarparu tystiolaeth feddygol cyn y byddwn yn awdurdodi absenoldebau pellach.
- Ceisiwch osgoi apwyntiadau meddygol a deintyddol yn ystod amser ysgol.
- Os ydych chi neu'ch plentyn yn cael anawsterau sy'n effeithio ar bresenoldeb, gwnewch apwyntiad gyda Mrs Layzell yn swyddfa'r ysgol i drafod cymorth ychwanegol.
- Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus.

Cofion cynnes,

Mrs K Moore.

